Adroddiad Arholwyr Lefel 3

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Uned 330 ac Uned 331

Haf 2026

© WJEC CBAC Cyf.2026



Cyflwyniad

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu'r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

Cefnogaeth bellach

Mapio	Disgrifiad	Cyswllt
Dysgu Proffesiynol / DPP	Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig.	https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/
Cyn-bapurau	Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad.	Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC
Gwybodaeth am ffiniau graddau	Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned. Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau.	Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk)

[1] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Cyf.2026

Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau	Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Porth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.	Porth CBAC
Adnoddau Ystafell Ddosbarth	Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu.	https://adnoddau.cbac.co.uk/
Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol	Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus.	Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC.
Arholi gyda CBAC.	Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu.	Arholi gyda ni | CBAC

© WJEC CBAC Cyf.2026

Cynnwys

	Tudalen
Crynodeb gweithredol	5
Uned 330: Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant, yn yr 21ain ganrif yng Nghymru	8
Uned 331: Ymchwilio i faterion cyfredol ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru	13
Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol	21

© WJEC CBAC Cyf.2026

Crynodeb Gweithredol

Uned 330

Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr gynnig ar bob un o'r cwestiynau, ac roedd yr ymatebion fel arfer yn glir ac wedi'u strwythuro'n dda. Ar y cyfan, roedd perfformiad yr ymgeiswyr yn gadarnhaol, wrth i lawer ohonynt ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ynglŷn â'r pwnc. Lle y cafodd marciau eu colli, roedd hyn yn aml oherwydd sylw annigonol i ferfau gorchmynnol, wrth i rai ymatebion ddibynnu ar ddatganiadau byr yn hytrach na'r esboniadau, trafodaethau a gwerthusiadau manwl a ddisgwylir ar Lefel 3.

Gwelwyd perfformiad cryf mewn cwestiynau a oedd yn ymwneud â datblygiad plant, gwasanaethau cymorth, a dulliau addysgol. Dangosodd yr ymatebion a oedd yn trafod manteision clybiau ieuenctid ddealltwriaeth glir o'r ffordd mae cyfranogiad yn cyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol, corfforol a gwybyddol drwy wella hyder, cyfathrebu, gwaith tîm ac annibyniaeth. Yn yr un modd, dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth gadarn o fanteision Dechrau'n Deg, gan gydnabod cyfraniad y fenter at ddatblygiad plant, cymorth i deuluoedd, a gwell canlyniadau drwy wasanaethau integredig.

Hefyd, perfformiodd yr ymgeiswyr yn arbennig o dda mewn cwestiynau a oedd yn ymwneud â Chydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADYau), lle y gwnaethant nodi cyfrifoldebau allweddol fel adnabod anghenion yn gynnar, datblygu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau), cydweithio â theuluoedd a gweithwyr proffesiynol, a rhoi cymorth wedi'i deilwra. Roedd dull dysgu Montessori yn faes cryf arall, lle y dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth gadarn o ddysgu plentyn-ganolog, annibyniaeth, archwilio ac amgylcheddau sy'n galluogi.

Dangoswyd lefelau da o ddealltwriaeth mewn perthynas â'r Cynllun Ysgolion Iach, arddulliau rhianta, CAMHS, dysgu synhwyraidd, a phrofion sgrinio rheolaidd yn ystod beichiogrwydd hefyd. Llwyddodd yr ymgeiswyr i nodi cysyniadau a manteision allweddol sy'n gysylltiedig â'r testunau hyn. Fodd bynnag, gallai'r ymatebion a enillodd y marciau uchaf fod wedi cael eu hatgyfnerthu drwy wneud mwy o ddefnydd o esboniadau manwl, enghreifftiau ymarferol, a chysylltiadau cliriach rhwng theori a chanlyniadau i blant, pobl ifanc, a theuluoedd.

Un maes roedd angen ei ddatblygu ymhellach oedd dealltwriaeth yr ymgeiswyr o weithwyr proffesiynol iechyd cysylltiedig. Er bod llawer o'r ymgeiswyr yn cydnabod pwysigrwydd cymorth amlasiantaethol, nododd rhai ohonynt yn anghywir fod gweithwyr proffesiynol fel meddygon, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd yn weithwyr proffesiynol iechyd cysylltiedig. Mae angen mwy o bwyslais ar adnabod rolau gweithwyr proffesiynol iechyd cysylltiedig penodol a deall y cymorth arbenigol maen nhw'n ei roi.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at batrwm cyson drwy'r arholiad cyfan: yn aml, dangosodd yr ymgeiswyr wybodaeth am gysyniadau perthnasol ond ni wnaethant bob amser ddatblygu eu hymatebion yn ddigonol i fodloni gofynion berfau gorchmynnol lefel uwch fel esboniwch, trafodwch, aseswch, cyfiawnhewch, ac archwiliwch. Felly, dylai canolfannau ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig yr ymgeiswyr, gan eu hannog i ehangu pwyntiau drwy ychwanegu enghreifftiau, ffurfio cysylltiadau pendant â chanlyniadau i blant, a gwerthuso effaith arferion ac ymyriadau.

I gloi, dangosodd yr arholiad fod gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr sylfaen gadarn o wybodaeth am holl gynnwys yr uned. Gellid gwella perfformiad yn y dyfodol drwy roi mwy o bwyslais ar ddatblygu ymatebion, cymhwyso theori at ymarfer, a defnyddio terminoleg pwnc-benodol yn gywir. Drwy atgyfnerthu'r sgiliau hyn, bydd yr ymgeiswyr mewn sefyllfa well i gyrraedd y bandiau marciau uchaf a dangos y dyfnder dealltwriaeth a ddisgwylir ar Lefel 3.

© WJEC CBAC Cyf.2026

Uned 331

Ar y cyfan, dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth gadarn o'r testunau a ddewiswyd ganddynt ac, ar y cyfan, gwnaethant gynnal ymchwiliadau a oedd wedi'u strwythuro'n dda ac a oedd wedi'u hategu gan enghreifftiau perthnasol o theori a phrofiad yn y gweithle. Dangosodd yr ymgeiswyr a berfformiodd orau sgiliau dadansoddi cadarn, y gallu i feddwl yn feirniadol, a'r gallu i gysylltu canfyddiadau gwaith ymchwil â phrofiadau ymarferol. Roedd ymatebion yr ymgeiswyr a berfformiodd ar lefel is yn tueddu i fod yn ddisgrifiadol, yn brin o werthuso dwfn, ac yn ffurfio cysylltiadau gwannach rhwng theori, deddfwriaeth, tystiolaeth o waith ymchwil, ac ymarfer.

Dewisodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr y testun a oedd yn archwilio ffactorau cyfredol a chyfoes sy'n effeithio ar iechyd a llesiant plant. Roedd yr ymatebion cryf yn archwilio materion fel iechyd meddwl, strwythur teuluol, y cyfryngau cymdeithasol, caledi ariannol, anghenion dysgu ychwanegol, hunanddelwedd, a phrofiadau gofalwyr ifanc. Llwyddodd yr ymgeiswyr i gysylltu gwybodaeth ddamcaniaethol ag ymarfer yn y gweithle a phrofiadau personol, gan ddangos dealltwriaeth o ddylanwad y ffactorau hyn ar ddatblygiad plant. Dewisodd nifer llai o'r ymgeiswyr y testun a oedd yn canolbwyntio ar y Cwricwlwm i Gymru a gwerth gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb wrth gefnogi datblygiad cyfannol. Roedd yr ymchwiliadau cryf yn archwilio dulliau dysgu plentyn-ganolog a seiliedig ar chwarae a phrofiadau, gan ffurfio cysylltiadau clir â datblygiad corfforol, gwybyddol, emosiynol, cymdeithasol ac ieithyddol plant.

Roedd ansawdd y gwaith ymchwil yn amrywio'n sylweddol ar gyfer y ddau destun. Yr ymgeiswyr a werthusodd dystiolaeth yn feirniadol, a ddefnyddiodd ffynonellau dibynadwy ac a ategodd eu casgliadau â gwaith ymchwil perthnasol a enillodd y graddau uchaf. Ymhlith y gwendidau cyffredin roedd cyfeirnodi cyfyngedig, diffyg manylder wrth ddadansoddi, a thystiolaeth annigonol i ategu canfyddiadau. Tynnodd yr adroddiad sylw at bwysigrwydd annog mwy o annibyniaeth, wrth i rai ymchwiliadau adlewyrchu dulliau a gyfarwyddir gan ganolfannau yn hytrach na diddordebau ymchwil unigol a myfyrio beirniadol. Dewisodd yr ymgeiswyr naill ai ffocws ar werth gwasanaethau iechyd ac addysgu sy'n cefnogi ymyriadau cynnar neu ymchwiliad i ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad plant. Roedd y perfformiad yn y chwe thasg asesu yn debyg o ran cryfderau a meysydd i'w datblygu.

Llwyddodd yr ymgeiswyr a enillodd y marciau uchaf i nodi meysydd ymchwil yn glir, cyfiawnhau eu dewisiadau, esbonio eu dulliau ymchwil, a dangos gwaith ysgrifennu academaidd cadarn o'r cychwyn cyntaf. Drwy gydol yr ymchwiliad, gwnaeth yr ymgeiswyr llwyddiannus drafod yn feirniadol sut mae'r testunau a ddewiswyd ganddynt yn dylanwadu ar y ffordd mae plant yn chwarae, yn dysgu ac yn datblygu, gan ymgorffori mwy nag un safbwynt, enghreifftiau o'r gweithle, deddfwriaeth Cymru a safbwyntiau damcaniaethol, gan gyfeirio'n gywir at dystiolaeth.

Roedd tasgau lle roedd angen gwerthuso ac asesu yn fwy heriol i rai ymgeiswyr. Er i lawer ohonynt ddangos gwybodaeth dda am werthoedd proffesiynol, egwyddorion, deddfwriaeth a fframweithiau, roedd yr ymatebion gwannaf yn aml yn disgrifio'r ffactorau hyn yn hytrach na gwerthuso eu heffeithiolrwydd neu eu heffaith yn ymarferol. Llwyddodd yr ymatebion cryfach i gysylltu deddfwriaeth Cymru, fel Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a'r Cwricwlwm i Gymru, â phrofiadau go iawn mewn lleoliadau gofal plant ac asesu sut mae'r rhain wedi llywio ymarfer presennol.

Yn gyffredinol, dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o ddatblygiadau'r dyfodol yn y sector, gan adnabod sut y gall ymarfer seiliedig ar ymchwil wella canlyniadau i blant. Cafodd tasgau adfyfyriol eu cwblhau'n dda ar y cyfan, wrth i lawer o'r ymgeiswyr nodi sut y byddai eu gweithgareddau dysgu'n dylanwadu ar ymarfer proffesiynol yn y dyfodol, yn arwain at gydweithio gwell â chydweithwyr, ac yn gwella cymorth i blant a theuluoedd.

© WJEC CBAC Cyf.2026

Pwysleisiodd yr adborth gan arholwyr sawl maes allweddol i'w datblygu yn y dyfodol: cynnal strwythur clir ar gyfer pob tasg, dewis meysydd ymchwil hydrin sydd â ffocws pendant, defnyddio dull cyfeirnodi Harvard yn gyson, osgoi ymatebion ar ffurf pwyntiau bwled a phrofformas, cysylltu'r holl dasgau yn glir â'r testun a ddewiswyd, a dangos mwy o annibyniaeth a myfyrio personol. Yr ymgeiswyr a gyfunodd waith ymchwil, theori, deddfwriaeth, ymarfer a gwerthuso beirniadol yn effeithiol oedd fwyaf llwyddiannus o ran cyrraedd y bandiau marciau uchaf.

© WJEC CBAC Cyf.2026

GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: YMARFER A THEORI

Lefel 3

Haf 2026

UNED 330: EGWYDDORION A DAMCANIAETHAU SY'N DYLANWADU AR OFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT YN YR 21AIN GANRIF YNG NGHYMRU

Trosolwg o'r Uned

Roedd yr arholiad Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn cynnwys cwestiynau a oedd yn ymdrin ag un neu fwy o'r amcanion asesu (AA1, AA2 ac AA3). Roedd amrywiaeth gytbwys o gwestiynau tariff is a thariff uwch yn ymdrin ag ehangder manyleb Uned 300, gan asesu gwybodaeth a dealltwriaeth ymgeiswyr ynglŷn ag egwyddorion a damcaniaethau drwy Destunau 1-5 i gyd. Roedd arddull y cwestiynau'n adlewyrchu'r rhai a ddefnyddiwyd yn y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol, gan roi fformat cyfarwydd i'r ymgeiswyr. Nid oedd mathau annisgwyl o gwestiynau ac, ar y cyfan, llwyddodd yr ymgeiswyr i ymgysylltu'n dda â'r papur, gan ddangos hyder wrth ymateb i'r mwyafrif o'r cwestiynau.

Nod yr uned yw adeiladu ar wybodaeth ddamcaniaethol gan ymestyn dealltwriaeth ymarferol a galluogi'r ymgeiswyr i gymhwyso'r hyn y byddant wedi'i ddysgu a'u profiadau wrth ateb cwestiynau arholiad. Ar y cyfan, ymatebodd yr ymgeiswyr yn dda, gan wneud ymdrechion clir i fynd i'r afael â'r berfau gorchmynnol a strwythur pob cwestiwn. Roedd y papur yn hygyrch i'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ac, yn gyffredinol, cafodd amser ei reoli'n effeithiol. Cafodd yr asesiadau eu cwblhau ar-lein ac ar bapur, ac roedd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael. Roedd yr ymatebion yn glir ar y cyfan, a gwnaeth llawer o'r ymgeiswyr ddefnydd effeithiol o daflenni ateb ychwanegol lle roedd hynny'n briodol er mwyn datblygu eu syniadau ymhellach. Rhoddodd y mwyafrif helaeth o'r ymgeiswyr gynnig ar bob un o'r cwestiynau.

Er bod ansawdd yr ymatebion yn amrywio, dangosodd llawer o'r ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth gadarn. Lle y cafodd marciau eu colli, roedd hyn yn aml am nad oedd yr ymatebion yn bodloni gofynion y berfau gorchmynnol yn llawn. Mewn rhai achosion, dibynnodd yr ymgeiswyr ar restrau neu bwyntiau bwled yn hytrach na rhoi'r esboniadau neu'r trafodaethau datblygedig sy'n ddisgwyliedig ar Lefel 3, gan gyfyngu ar eu cyfle i ddangos y dyfnder gwybodaeth a dealltwriaeth a oedd yn ofynnol.

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Cw.1 Mae dysgu Cymraeg yn gallu helpu plant i ennill ymdeimlad o hunaniaeth a diwylliant Cymru, ac yn cefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Esboniwch sut mae gweithwyr gofal plant yn gallu cefnogi datblygiad dwyieithog plant.

Nododd yr ymgeiswyr amrywiaeth o ffyrdd priodol y gall gweithwyr gofal plant gefnogi datblygiad dwyieithog plant, gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd, ailadrodd geiriau allweddol, defnyddio caneuon, gemau, cymhorthion gweledol, ac annog cyfathrebu yn ystod gweithgareddau dyddiol. Rhestru strategaethau a wnaeth yr ymatebion hyn yn bennaf, ac roedd angen mwy o esboniad o'r ffordd mae'r rhain yn cefnogi datblygiad dwyieithog. Byddai ychwanegu enghreifftiau a chysylltu strategaethau â sgiliau cyfathrebu, lleferydd ac iaith plant a dealltwriaeth o drochi yn y Gymraeg wedi atgyfnerthu'r ymatebion.

© WJEC CBAC Cyf.2026

Yn gyffredinol, dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o ffyrdd o gefnogi datblygiad dwyieithog. Byddai mwy o esboniad o ddatblygiad dwyieithog yn gwella ansawdd yr ymatebion.

Cw.2 Mae cymryd rhan mewn clybiau ieuenctid yn gallu arwain at fanteision cadarnhaol i ddatblygiad plant.

Trafodwch beth yw'r manteision i ddatblygiad cyfannol plentyn os yw'n mynychu clwb ieuenctid.

Llwyddodd yr ymgeiswyr i roi ymatebion manwl a dangos dealltwriaeth gadarn o'r ffordd mae clybiau ieuenctid yn cefnogi datblygiad cyfannol plant. Gwnaethant esbonio'r manteision yn glir ar gyfer datblygiad cymdeithasol, emosiynol, corfforol a gwybyddol, gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol fel datblygu cyfeillgarwch, hyder, annibyniaeth, gwaith tîm a sgiliau cyfathrebu a datrys problemau. Roedd yr ymatebion hefyd yn cydnabod pwysigrwydd clybiau ieuenctid o ran hybu datblygiad plant ac roedd yr ymatebion yn gynhwysfawr. Er mwyn eu hatgyfnerthu ymhellach, gallai'r ymgeiswyr gynnwys enghreifftiau mwy penodol er mwyn dangos sut mae gweithgareddau penodol yn cefnogi datblygiad plant. Dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda iawn o fanteision clybiau ieuenctid, gan roi ymatebion a oedd wedi'u datblygu'n dda ynghyd â chysylltiadau clir â datblygiad cyfannol.

Cw.3 Disgrifiwch sut mae'r Cynllun Ysgolion Iach yn hybu iechyd a llesiant plant.

Dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r ffordd mae'r Cynllun Ysgolion Iach yn cefnogi iechyd a llesiant plant. Gwnaethant nodi meysydd allweddol gan gynnwys bwyta'n iach, gweithgarwch corfforol, iechyd meddwl, hylendid, diogelwch, a chreu amgylchedd ysgol cadarnhaol. Gallai'r ymatebion gynnwys mwy o enghreifftiau o weithgareddau ac esbonio sut mae'r rhain yn cefnogi iechyd a datblygiad plant. Rhoddodd yr ymgeiswyr ymatebion perthnasol a manwl, gan ddangos dealltwriaeth dda o fanteision y cynllun.

Cw.4 (a) **Mae gweithredoedd, agweddau a phrofiadau yn y cartref a'r tu allan i amgylchedd y cartref yn gallu effeithio ar ymddygiad plentyn.**

Aseswch arddulliau rhianta (*parenting styles*) gwahanol a sut maen nhw'n gallu effeithio ar ymddygiad plentyn.

(b) **Awgrymwch sut mae gweithwyr gofal plant yn gallu cefnogi ymddygiad cadarnhaol mewn lleoliad gofal plant.**

Dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r ffordd y gall gwahanol arddulliau rhianta effeithio ar ymddygiad plant. Gwnaethant nodi effeithiau cadarnhaol, fel hyder, sefydlogrwydd emosiynol, annibyniaeth, deall ffiniau, ac ymddygiad cadarnhaol. Gwnaethant hefyd gydnabod effeithiau negyddol, gan gynnwys gorbryder, hunan-barch isel, dryswch, ac ymddygiadau heriol a achosir gan ddisgwyliadau anghyson neu aneglur. Gellid atgyfnerthu'r ymatebion drwy gynnwys mwy o fanylion am arddulliau rhianta penodol ac esbonio sut y gall pob arddull ddylanwadu ar ymddygiad a datblygiad plant. Dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r ffordd y gall dulliau rhianta a phrofiadau yn y cartref effeithio ar ymddygiad plant.

© WJEC CBAC Cyf.2026

Cw.5 (a) **Mae timau a gwasanaethau yng Nghymru yn aml yn gweithio i gefnogi ymddygiad cadarnhaol mewn plant a phobl ifanc.**

Amlinellwch y mathau o gefnogaeth sy'n gallu cael eu darparu drwy'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

Dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r cymorth a roddir gan CAMHS. Gwnaethant nodi amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys cymorth ar gyfer llesiant emosiynol, gorbryder, iselder, anhwylderau bwyta, cymorth mewn argyfwng, camddefnyddio sylweddau, a gweithio gyda theuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill. Gallai'r ymatebion gynnwys mwy o esboniad o'r ffordd mae cymorth CAMHS yn helpu plant a phobl ifanc i reoli eu hiechyd meddwl, eu hemosiynau, a'u hymddygiad. Dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael drwy CAMHS.

(b) **Crynhowch (*summarise*) beth yw manteision y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) wrth gefnogi iechyd meddwl a llesiant plant.**

Dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o fanteision CAMHS wrth gefnogi iechyd meddwl a llesiant plant. Gwnaethant nodi meysydd fel ymyrryd yn gynnar, datblygu sgiliau ymdopi, gwella llesiant, cefnogi adferiad, a helpu plant a phobl ifanc i reoli heriau. Gallai'r ymatebion gynnwys enghreifftiau mwy penodol o'r ffordd mae cymorth CAMHS yn effeithio ar fywydau beunyddiol plant, eu hyder, eu perthnasoedd, a'u canlyniadau yn y dyfodol. Dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r ffordd mae CAMHS yn rhoi cymorth ac yn hybu canlyniadau iechyd meddwl cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

Cw.6 Trafodwch beth yw gwerth ac effaith sgrinio, monitro a chynnal profion rheolaidd yn ystod beichiogrwydd.

Dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth gadarn o werth sgrinio, monitro a chynnal profion rheolaidd yn ystod beichiogrwydd. Gwnaethant nodi amrywiaeth o archwiliadau, gan gynnwys profion gwaed, sganiau uwchsain, pwysedd gwaed, profon wrin, a monitro iechyd a datblygiad y baban. Roedd yr ymatebion hefyd yn cydnabod pwysigrwydd canfod pryderon iechyd yn gynnar a rhoi cymorth priodol. Gellid atgyfnerthu'r ymatebion drwy esbonio'n gliriach sut mae'r archwiliadau hyn yn helpu i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau, ymyriadau cynnar, a chanlyniadau mwy diogel i'r fam a'r baban. Llwyddodd yr ymgeiswyr i roi ymatebion manwl a dangos dealltwriaeth dda o'r ffordd mae sgrinio a monitro yn ystod beichiogrwydd yn cefnogi iechyd y fam a'r baban.

Cw.7 Mae gweithwyr proffesiynol iechyd cysylltiedig (*allied health professionals*: AHPs) yn grŵp amrywiol o arbenigwyr sy'n darparu cefnogaeth a gwasanaethau hanfodol i'r timau gofal iechyd.

Disgrifiwch rôl dau AHP gwahanol.

Dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth o'r amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sy'n cyfrannu at gefnogi plant a theuluoedd. Byddai'r ymatebion yn elwa ar ddealltwriaeth gliriach o rolau penodol gweithwyr proffesiynol iechyd cysylltiedig (AHPs).

© WJEC CBAC Cyf.2026

Er bod rhai o'r enghreifftiau a roddwyd, fel deintyddion, meddygon teulu, ymwelwyr iechyd a bydwragedd, yn weithwyr iechyd proffesiynol pwysig, nid ydynt yn cael eu hystyried yn AHPs. Roedd angen i'r ymgeiswyr roi ffocws penodol ar nodi'r rolau arbenigol sy'n perthyn i'r grŵp AHP.

Yn gyffredinol, dangosodd yr ymgeiswyr rywfaint o ddealltwriaeth o'r rolau cymorth gofal iechyd, ond byddai'n fuddiol iddynt ddatblygu eu gwybodaeth am AHPs a'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu.

Cw.8 Mae plant ag anghenion ychwanegol yn elwa (*benefit*) o gyfleoedd dysgu synhwyraidd.

Esboniwch sut mae amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau'n gallu rhoi cyfle i'r plant ddefnyddio eu synhwyrau.

Llwyddodd yr ymgeiswyr i ddangos dealltwriaeth dda o ddysgu synhwyraidd a nodi amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau sy'n rhoi cyfle i blant ddefnyddio gwahanol synhwyrau. Yn eu plith roedd enghreifftiau sy'n gysylltiedig â golwg, sain, arogl, blas, a chyffyrddiad, fel teganau synhwyraidd, cerddoriaeth, gweithgareddau bwyd, profiadau awyr agored, a chwarae cyffyrddol. Gellid atgyfnerthu'r ymatebion drwy esbonio sut mae'r gweithgareddau hyn yn cefnogi plant ag anghenion ychwanegol, er enghraifft drwy ddatblygu sgiliau cyfathrebu, ymgysylltu, hyder, ymlacio ac archwilio. Dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o weithgareddau synhwyraidd, gan roi enghreifftiau perthnasol sy'n helpu plant i ddysgu a datblygu.

Cw.9 Mae arsylwadau yn yr ystafell ddosbarth yn dangos bod Alex yn cael anawsterau (*difficulties*) â deall darllen ac ysgrifennu, sy'n cael effaith negyddol ar ymgysylltiad a chynnydd (*engagement and progress*) ar draws y rhan fwyaf o bynciau.

Cyfiawnhewch (*justify*) fanteision rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (*Additional Learning Needs Coordinator*: ALNCo) o ran bodloni anghenion dysgu penodol Alex.

Llwyddodd yr ymgeiswyr i roi ymatebion manwl a dangos dealltwriaeth gadarn o rôl y CADY o ran cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Gwnaethant nodi cyfrifoldebau allweddol gan gynnwys adnabod yn gynnar, asesu, creu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau), cefnogi staff, gweithio gyda rhieni/gofalwyr ac asiantaethau allanol, a chynnig adnoddau ac addasiadau addas er mwyn diwallu anghenion unigolion. Roedd yr ymatebion a roddwyd yn gynhwysfawr ac yn fanwl iawn ar y cyfan. I atgyfnerthu'r ymatebion ymhellach, gallai'r ymgeiswyr fod wedi ffurfio cysylltiadau cliriach rhwng cymorth y CADY a sut y byddai hyn yn gwella sgiliau darllen ac ysgrifennu, hyder, a chynnydd academaidd Alex yn uniongyrchol. Dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda iawn o rôl y CADY a sut y gall cymorth wedi'i bersonoli helpu i ddiwallu anghenion dysgu penodol Alex.

© WJEC CBAC Cyf.2026

Cw.10 (a) **Mae dull Maria Montessori wedi'i seilio ar y gred bod plant yn dysgu drwy archwilio eu hamgylchedd.**

Myfyriwch (*reflect*) ar ddull Montessori o ddysgu.

Dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth gadarn o ddull Montessori o ddysgu. Gwnaethant nodi egwyddorion allweddol gan gynnwys dysgu plentyn-ganolog, annibyniaeth, archwilio, gweithgareddau ymarferol, rhyddid i ddewis, ailadrodd, a chreu amgylchedd sy'n galluogi. Roedd yr ymatebion hefyd yn cydnabod pwysigrwydd parchu cyflymder unigol pob plentyn a chefnogi hyder, datblygiad gwybyddol, a sgiliau cymdeithasol. Roedd yr ymatebion yn aml yn fanwl ac yn myfyrio ar brofiadau seiliedig ar waith. I atgyfnerthu'r ymatebion ymhellach, gallai'r ymgeiswyr gynnwys enghreifftiau mwy penodol o weithgareddau ac adnoddau Montessori er mwyn dangos sut mae'r dull yn cael ei roi ar waith yn ymarferol. Dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda iawn o ddull Montessori a'r ffordd mae'n helpu plant i ddysgu a datblygu.

(b) **Ystyriwch sut mae ei syniadau'n gallu achosi newid cadarnhaol i ymarfer presennol.**

Dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth o'r ffordd y gall syniadau Montessori greu newid cadarnhaol mewn ymarfer presennol.

Gwnaethant nodi egwyddorion allweddol fel dysgu plentyn-ganolog, annibyniaeth, dysgu gweithredol, dewis, dysgu hunangyfeiriedig, a chreu amgylchedd sy'n cefnogi anghenion unigol plant.

Byddai rhai ymatebion yn elwa ar fwy o esboniad o'r ffordd y gall egwyddorion Montessori wella profiadau, datblygiad a dysgu plant yn ymarferol. Dylai'r ymgeiswyr ffurfio cysylltiadau cliriach rhwng y dull a newidiadau cadarnhaol i ymarfer presennol. Dangosodd yr ymgeiswyr ymwybyddiaeth dda o ddull Montessori. Byddai esboniad manylach a chysylltiadau ag enghreifftiau ymarferol yn atgyfnerthu'r ymatebion ac yn helpu i ennill marciau uwch.

Cw.11 Mae plant sy'n mynychu rhaglenni blynyddoedd cynnar fel Dechrau'n Deg (*Flying Start*) yn gallu profi amrywiaeth eang o fanteision.

Archwiliwch beth yw'r manteision i blant, teuluoedd a gofalwyr os ydyn nhw'n cymryd rhan yn y rhaglen Dechrau'n Deg.

Dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth gadarn o fanteision rhaglen Dechrau'n Deg. Gwnaethant nodi cymorth ar gyfer datblygiad, sgiliau iaith, hyder, sgiliau cymdeithasol, dysgu a llesiant plant. Gwnaethant hefyd gydnabod y manteision i deuluoedd a gofalwyr drwy ofal plant, cymorth gan ymwelwyr iechyd, cymorth i deuluoedd, ac arweiniad. Gallai'r ymatebion gynnwys mwy o esboniad o'r ffordd mae'r gwasanaethau hyn yn gwella canlyniadau i blant ac yn cefnogi teuluoedd yn ymarferol. Rhoddodd yr ymgeiswyr ymatebion manwl gan ddangos dealltwriaeth dda o'r ffordd mae Dechrau'n Deg yn cefnogi plant, teuluoedd a gofalwyr.

© WJEC CBAC Cyf.2026

GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: YMARFER A THEORI

Lefel 3

Haf 2026

UNED 331: YMCHWILIO I FATERION CYFREDOL YM MAES GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT YNG NGHYMRU

Trosolwg o'r Uned

Ymchwiliad Estynedig

Mae'r ymchwiliad estynedig i faterion cyfredol ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru yn gofyn i ddysgwyr ymchwilio i fater cyfoes ar gyfer y sector gan ddewis un o'r testunau canlynol i ymchwilio iddo:

Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

- Dewisodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr Destun 1: Ffactorau cyfredol a chyfoes sy'n effeithio ar iechyd a llesiant plant. Gwnewch ymchwil ar amrywiaeth o ffactorau cyfredol a chyfoes a'u heffaith ar ddatblygiad.
- Llwyddodd llawer o'r ymgeiswyr i drafod effaith ffactorau cyfredol a chyfoes ar ddatblygiad plant, gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cynnwys a addysgir o fewn Uned 330 Testun 1. Yn gyffredinol, cynhaliodd yr ymgeiswyr ymchwiliadau ymchwil cyflawn a oedd yn ymdrin ag amrywiaeth eang o ffactorau cyfredol a chyfoes, gan gynnwys newidiadau i strwythur teuluol, amgylchiadau ariannol, iechyd meddwl, y cyfryngau cymdeithasol, anghenion dysgu ychwanegol, hunanddelwedd, a rôl gofalwyr ifanc. Dangosodd llawer o'r ymatebion ar y lefel uchaf ffordd fwy personol o gyflawni'r dasg, gan gysylltu theori â phrofiad ymarferol ac ymarfer proffesiynol yn effeithiol. Roedd yr ymatebion hyn wedi'u strwythuro'n glir, yn canolbwyntio ar y meysydd tystiolaeth gofynnol, ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o ddisgwyliadau'r ymchwiliad.
- Dewisodd nifer llai o'r ymgeiswyr Destun 2: Mae'r fframwaith cwricwlwm statudol yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio i lywio cynllunio er mwyn sicrhau datblygiad cyfannol plant mewn ymarfer. Gwnewch ymchwil ar y gwerth o ddefnyddio gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb i gefnogi datblygiad cyfannol plant.
- Dangosodd yr ymgeiswyr a ddewisodd y testun hwn wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r ffordd mae'r fframwaith cwricwlwm statudol yng Nghymru yn llywio gwaith cynllunio i gefnogi datblygiad cyfannol plant. Roedd yr ymchwiliadau cryfaf yn archwilio gwerth cynnal gweithgareddau plentyn-ganolog sy'n ennyn diddordeb drwy ddysgu drwy brofiad, dysgu drwy chwarae, a phrofiadau ymarferol, gan ffurfio cysylltiadau effeithiol â'r Cwricwlwm i Gymru a theori o Uned 330 Testun 5. Llwyddodd yr ymgeiswyr i gysylltu'r egwyddorion hyn ag ymarfer mewn lleoliadau gofal plant, gan esbonio sut mae gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb yn cefnogi datblygiad corfforol, gwybyddol, emosiynol, cymdeithasol ac ieithyddol plant.
- Yn gyffredinol, cynhaliodd yr ymgeiswyr ymchwiliadau ymchwil cyflawn ar y ddau destun, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn wedi'u hategu gan amrywiaeth o enghreifftiau perthnasol. Dangosodd yr ymatebion a enillodd y marciau uchaf ddadansoddi manylach, gan werthuso gwaith ymchwil yn effeithiol a ffurfio cysylltiadau ystyrlon rhwng theori, ymarfer yn y gweithle, a phrofiad personol.

© WJEC CBAC Cyf.2026

- Roedd amrywiadau clir o ran dyfnder y gwaith ymchwil a gyflwynwyd, ac nid oedd y ffynonellau a ddefnyddiwyd i ategu'r gwaith bob amser wedi'u nodi drwy restr gyfeirio. Ar y cyfan, dangosodd yr ymatebion wybodaeth gadarn a dealltwriaeth fanwl ynglŷn â'r testun a ddewiswyd. Roedd ansawdd y gwaith ysgrifenedig yn adlewyrchu safbwyntiau amrywiol a gwybodus ar ymarfer yn y gweithle, a llwyddodd llawer o'r ymgeiswyr i gysylltu cysyniadau damcaniaethol â phrofiadau proffesiynol.
- Cafodd y gwahaniaethau hyn eu hadlewyrchu yn y graddau a roddwyd, ac roedd lefel y gwaith ymchwil a wnaed yn amrywio a'r defnydd o ffynonellau wedi'u cyfeirnodi yn anghyson. Er i lawer o'r ymatebion ddangos gwybodaeth gadarn a dealltwriaeth glir ynglŷn â'r testun a ddewiswyd, cafodd dyfnder yr ymchwiliad a'r gallu i ddangos tystiolaeth effeithiol o ganfyddiadau ddylanwad ar y perfformiad cyffredinol. Yr ymgeiswyr a ffurfiodd gysylltiadau clir rhwng ymarfer yn y gweithle ac ymarfer proffesiynol ac a ategodd eu hymatebion â gwaith ymchwil perthnasol a enillodd y graddau uchaf.
- Roedd meysydd ffocws y canolfannau i'w gweld drwy'r gwaith marcio, wrth i lawer o'r ymgeiswyr gwblhau tasgau a oedd yn cyd-fynd yn agos â chyfarwyddyd canolfannau a gweithgareddau dosbarth. Roedd y dull hwn yn cyfyngu ar gyfleoedd i'r ymgeiswyr ddangos dewis annibynnol yn eu hymchwiliadau. Bwriedir i ymchwiliad Uned 331 fod yn seiliedig ar ffocws a ddewisir gan ymgeisydd unigol ym maes y testun a ddewisir, yn seiliedig ar ei waith ymchwil ei hun. Dylid annog yr ymgeiswyr i fynegi safbwyntiau personol, myfyrdodau beirniadol, ac ystyriaethau seiliedig ar wybodaeth gan ddefnyddio profiadau ymarferol ar yr un pryd, er mwyn cynnig mwy o annibyniaeth wrth ddewis ffocws a dull.
- Mae'r broses o farcio'r arholiad yn gofyn am strwythur clir a chyson er mwyn helpu i ddilyn y cynllun marcio'n gywir a gwahaniaethu'n glir ar draws ffiniau marciau. Bydd y rhain yn parhau i fod yn feysydd pwysig ar gyfer addysgu a dysgu yn y dyfodol. Bydd y meysydd allweddol canlynol yn cefnogi eglurder ac effeithiolrwydd yr ymchwiliad estynedig ac yn galluogi ymgeiswyr i gael mynediad at yr ystod lawn o farciau sydd ar gael.

Adborth y Prif Arholwr

- Dylid nodi'r teitl a'r testun a ddewiswyd yn glir ar dudalen gyntaf y papur er mwyn sicrhau bod ffiniau'r dasg yn glir.
- Rhaid cynnwys rhif canolfan yr ymgeisydd, rhif yr ymgeisydd a rhif y dudalen ar bob tudalen a gyflwynir.
- Mae'n ofynnol i ganolfannau uwchlwytho dogfennau Word yn hytrach na dogfennau PDF.
- Rhaid cwblhau a llofnodi taflenni dyraniad amser ar gyfer pob ymgeisydd unigol.
- Rhaid rhoi cyfrif am amseroedd egwyl ar y daflen amser.
- Bydd angen cwblhau taflenni amser fel y nodwyd a'u cyfansymio â nifer cyffredinol yr oriau.
- Rhaid i dasgau 1, 2, 3, 4, 5 a 6 gael eu labelu'n glir i nodi ffiniau tasgau. Ni ellir marcio gwaith heb i'r tasgau fod wedi'u nodi'n glir.
- Mae'r maes testun yn ganolog i'r ymchwiliad cyfan. Caiff y papur asesu ei farcio yn ei gyfanrwydd ac mae'n rhaid i bob tasg gysylltu'n gyson â'r testun a ddewiswyd.
- Ni ddylid newid y cwestiynau arholiad.
- Mae angen i ymgeiswyr osgoi defnyddio tablau a phwyntiau bwled.
- Dylid osgoi profformas. Papur arholiad Uned 331 yw prif ffynhonnell y canllawiau ar gyfer cwblhau'n llwyddiannus.
- Dylid osgoi profformas wedi'u symleiddio sydd â chwestiynau amgen, gan eu bod yn aml yn hepgor meysydd tystiolaeth.
- Dylai canolfannau ganiatáu ar gyfer unigoliaeth wrth gwblhau'r ymchwiliad.
- Dylai'r ymgeiswyr ond dewis meysydd trafod y maent yn gallu eu harchwilio'n effeithiol fel dewis unigol yn hytrach na dewis yn unol â chyfarwyddyd y ganolfan.

© WJEC CBAC Cyf.2026

- Dylai'r ymgeiswyr ddewis nifer bach o feysydd ffocws o fewn y testun a ddewisir ganddynt sy'n benodol ac y byddai'n realistig ymchwilio iddynt o fewn y cyfrif geiriau a ganiateir.
- Dylid ysgrifennu tasgau o safbwynt yr ymgeisydd ac yn y person cyntaf, gan ddisgrifio profiadau, barn a myfyrdodau lle bo hynny'n briodol.
- Ni chaniateir defnyddio deallusrwydd artiffisial fel ffynhonnell ddilys na chyfeiriad ar gyfer ymchwil.
- Ni chaniateir defnyddio'r rhyngrwyd yn ystod yr asesiad di-arholiad.
- Ni all ymgeiswyr gynnwys dolenni i ragor o wybodaeth, arolygon na holiaduron, gan fod y rhain y tu hwnt i ffiniau'r cynllun marcio. Dylai unrhyw wybodaeth a geir drwy waith ymchwil gael ei thrafod o fewn y tasgau gosod.
- Rhaid i drafodaethau am ddeddfau, deddfwriaeth a fframweithiau ymwneud â Chymru a chael eu cyfeirnodi'n briodol.
- Dylid cyfeirnodi ffynonellau ar-lein yn briodol.
- Dull cyfeirnodi Harvard yw'r dull cyfeirnodi priodol.
- Dylid darparu rhestrau cyfeirio ar ddiwedd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau.
- Bydd cyflwyno deunydd a gopïwyd yn uniongyrchol o lyfrau neu ffynonellau eraill heb gydnabyddiaeth yn cael ei adael heb ei farcio.
- Edrychwch yn ofalus ar y gofynion o ran tystiolaeth, gan gynnwys y datganiadau 'rhaid cynnwys' a 'gallai gynnwys', er mwyn sicrhau ymdriniaeth gynhwysfawr â'r cynllun marcio.
- Dylid nodi'r cyfrif geiriau yn glir, heb gynnwys y rhestr gyfeirio a'r llyfryddiaeth.
- Ni ddylai'r ymchwiliad gynnwys mwy na 5,500 o eiriau. Ni fydd cynnwys y tu hwnt i'r terfyn hwn yn cael ei farcio.

© WJEC CBAC Cyf.2026

Trosolwg o'r Uned

Testun - 1
Mae ymyrryd yn gynnar ac asesiadau yn cael eu defnyddio i hybu dysgu, iechyd a llesiant. Ymchwiliwch i werth gwasanaethau iechyd a gwasanaethau seiliedig ar addysg sy'n cefnogi ymyrryd yn gynnar.

Testun - 2
Mae gweithredoedd, agweddau a phrofiadau yn y cartref a'r tu allan iddo yn gallu effeithio ar ymddygiad plentyn.

Ymchwiliwch i amrywiaeth o ffactorau sy'n gallu effeithio ar ymddygiad plentyn.

Tasgau
Sylwadau am dasgau/cwestiynau yn ymwneud â pherfformiad ymgeiswyr/bodloni meini prawf asesu

Tasg 1
Ysgrifennwch ragarweiniad i'ch ymchwiliad estynedig.

Amlinellwch:

- y prif ffocws; meysydd rydych chi wedi dewis ymchwilio iddyn nhw mewn perthynas â'r testun rydych chi wedi'i ddewis
- pam rydych chi wedi dewis y testun a'r meysydd ffocws; efallai yr hoffech gyfeirio at ddiddordeb personol, cynnwys a addysgwyd, ymgysylltiad â'r sector a lleoliad gwaith, y dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd gennych
- y ffynonellau rydych chi wedi'u defnyddio wrth ymchwilio i'r testun a'r meysydd ffocws.

Mae'r dasg hon yn gofyn am gyflwyniad penodol i'r ymchwiliad estynedig cyfan. Dylid nodi meysydd ffocws yn glir a dylent fod yn ganolog i'r testun a ddewiswyd. Dylid nodi un neu ddau faes ffocws gyda rhesymau dros eu dewis a all fod yn seiliedig ar brofiad personol/ymarferol mewn lleoliad gwaith neu amgylchedd dysgu sydd wedi ennyn diddordeb a chodi ymwybyddiaeth i ysgogi ymchwiliad pellach. Mae angen cyfyngu ar y meysydd ffocws i sicrhau y gellir ystyried a gwerthuso'r meysydd ffocws penodol yn drylwyr drwy'r dull amrywiol o ymchwil sy'n gysylltiedig â'r broses gyfan. Dylid nodi'r dystiolaeth o waith ymchwil a'r deunydd darllen a ddewiswyd yn glir.

Ar gyfer Testun 1, ysgrifennodd yr ymgeiswyr cryfaf ragarweiniadau clir a oedd â ffocws pendant ac a oedd yn nodi meysydd ymchwil perthnasol, fel asesiadau addysgol, gwasanaethau iechyd, a chymorth amlasiantaethol ar gyfer ymyrryd yn gynnar. Ar gyfer Tesun 2, ysgrifennodd yr ymgeiswyr cryfaf ragarweiniadau a oedd â ffocws pendant ac a oedd yn nodi'n glir y ffactorau roeddent yn bwriadu ymchwilio iddynt, fel arddulliau rhianta, perthnasoedd teuluol, dylanwad cyfoedion, amgylchedd ysgol, y cyfryngau cymdeithasol, trawma, ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol. Tynnodd llawer ohonynt sylw clir at eu dewisiadau ar gyfer y testun drwy ddefnyddio diddordeb personol, cynnwys a addysgwyd, neu brofiadau ar leoliad gwaith, gan amlinellu dulliau ymchwil priodol a ffynonellau dibynadwy. Roedd yr ymatebion hyn yn dangos gwaith cynllunio da, ysgrifennu academaidd, a chyfeiriad clir ar gyfer yr ymchwiliad.

Rhoddodd rhai ymgeiswyr ragarweiniadau byr neu gyffredinol yn aml, gyda manylion cyfyngedig am y meysydd ffocws a ddewiswyd ganddynt. Nid oedd eu cyfiawnhad dros ddewis y testun wedi'i ddatblygu'n ddigonol, ni wnaethant esbonio eu dulliau ymchwil, ac roedd eu ffynonellau'n aml yn amwys neu'n annibynadwy.

© WJEC CBAC Cyf.2026

Roedd yr ymatebion hyn yn tueddu i fod yn ddisgrifiadol yn hytrach na dadansoddol, gan ei gwneud hi'n anodd deall diben a chwmpas yr ymchwiliad.

Ar y cyfan, rhoddwyd y marciau uchaf i'r ymgeiswyr a esboniodd yn glir yr hyn y byddent yn ymchwilio iddo, pam roedd yn bwysig, a sut y byddent yn casglu ac yn gwerthuso gwybodaeth.

Tasg 2

Trafodwch sut mae'r testun a'r meysydd ffocws rydych chi wedi'u dewis yn cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Rhaid i'ch tystiolaeth gynnwys:

- sut mae'r meysydd ffocws yn cefnogi (yn gadarnhaol neu'n negyddol) gofal, dysgu, chwarae a datblygiad plant
- amrywiaeth o safbwyntiau gan gynnwys eich rhai chi a/neu eraill
- enghreifftiau priodol o ddamcaniaeth a/neu ymarfer i gefnogi eich trafodaeth
- sut mae damcaniaeth/deddfwriaeth neu fframweithiau perthnasol (fel bo'n briodol) wedi effeithio ar y testun a'r meysydd ffocws
- cyfeiriadau neu ddyfyniadau olrheiniadwy (*traceable*) i gefnogi tystiolaeth.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddangos dealltwriaeth o ddamcaniaeth/fframweithiau neu ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r meysydd ffocws a chymhwyso hyn at ymarfer. Dylid ystyried pwyntiau cadarnhaol a/neu negyddol yn ogystal â'u safbwynt eu hunain gan ystyried meddyliau pobl eraill, gallai hyn gynnwys lleoliad gwaith ac ymarfer a welwyd yn ystod profiad lleoliad gwaith y gellir eu defnyddio i gefnogi safbwyntiau. Dylid cynnwys damcaniaeth, deddfwriaeth neu fframweithiau priodol a pherthnasol a fydd yn cefnogi'r drafodaeth. Mae angen i ymgeiswyr gynnwys defnydd effeithiol o gyfeirnodi perthnasol.

Ar gyfer Testun 1, rhoddodd yr ymgeiswyr cryfaf drafodaeth gytbwys ar y ffordd mae gwasanaethau iechyd a gwasanaethau seiliedig ar addysg yn cefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Ar gyfer Testun 2, gwnaeth yr ymgeiswyr cryfaf drafod yn feirniadol y ffordd mae ffactorau fel arddulliau rhianta, perthnasoedd teuluol, dylanwad cyfoedion, amgylchedd ysgol, trawma a'r cyfryngau cymdeithasol yn gallu cael effaith gadarnhaol a negyddol ar ymddygiad plentyn. Gwnaethant archwilio effeithiau cadarnhaol a negyddol, cynnwys amrywiaeth o safbwyntiau, cymhwyso damcaniaethau, deddfwriaeth a fframweithiau perthnasol, ac ategu eu dadleuon ag enghreifftiau ymarferol a chyfeiriadau olrheiniadwy.

Ar gyfer Testun 1, roedd yr ymgeiswyr gwannaf yn tueddu i fod yn ddisgrifiadol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar esbonio gwasanaethau yn hytrach na gwerthuso eu heffeithiolrwydd. Ar gyfer Testun 2, roedd yr ymgeiswyr gwannaf yn tueddu i ddisgrifio ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad yn hytrach na gwerthuso eu heffaith. Roeddent yn aml yn cynnwys safbwyntiau cyfyngedig, cysylltiadau gwan â theori a deddfwriaeth, nifer cyfyngedig o enghreifftiau ymarferol, a chyfeirnodi annigonol. Rhoddwyd y marciau uchaf i ymatebion a oedd yn dangos dadansoddiadau beirniadol, yn ategu dadleuon â thystiolaeth, ac yn cysylltu gwasanaethau ymyrryd yn gynnar yn glir â chanlyniadau plant ar gyfer Testun 1, ac yn trafod ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad a datblygiad plant ar gyfer Testun 2.

Tasg 3

Gwerthuswch sut mae'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i'r testun a'r meysydd ffocws rydych chi wedi'u dewis yn cael eu defnyddio mewn ymarfer i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

© WJEC CBAC Cyf.2026

Gallai eich tystiolaeth gyfeirio at:

- gyfathrebu effeithiol
- gwaith tîm a gweithio ar y cyd
- cydraddoldeb/cynhwysiant/amrywiaeth
- rhyddid i gymryd rhan
- hawliau plant yn cael eu cynnal
- sgiliau proffesiynol neu unrhyw sgiliau eraill fel y bo'n briodol.

Mae'r tasgau hyn yn canolbwyntio ar werthuso amrediad o werthoedd ac egwyddorion. Gellid datblygu'r gwerthusiad drwy ddefnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei meithrin fel rhan o'r cynnwys ac addysgir ynghyd ag enghreifftiau o ymarfer. Dangosodd yr ymgeiswyr eu gallu i ystyried amrywiaeth o drafodaethau yn ymwneud ag ymarfer a gwnaethant gynnwys pwyntiau clir i fodloni'r rhestr o dystiolaeth y gellid ei chynnwys, fel pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol, gwaith tîm, a sgiliau proffesiynol.

Ar gyfer Testun 1, llwyddodd yr ymgeiswyr cryfaf i werthuso'n feirniadol y ffordd mae gwerthoedd ac egwyddorion fel cyfathrebu effeithiol, gwaith tîm, cynhwysiant, cydraddoldeb, hawliau plant, ac ymarfer proffesiynol yn cefnogi gwasanaethau ymyrryd yn gynnar. Gwnaethant ddefnyddio tystiolaeth ac enghreifftiau perthnasol i ddangos sut mae'r egwyddorion hyn yn gwella gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant, gan lwyddo i ddangos sut mae'r dulliau hyn yn cefnogi canlyniadau ymddygiadol cadarnhaol a datblygiad plant.

Fodd bynnag, disgrifio gwerthoedd ac egwyddorion heb werthuso eu heffeithiolrwydd yn ymarferol a wnaeth rhai ymgeiswyr yn bennaf. Roedd yr ymatebion yn brin o dystiolaeth, enghreifftiau ymarferol, a dadansoddi beirniadol. Rhoddwyd y marciau uchaf i'r ymgeiswyr a asesodd effaith y gwerthoedd a'r egwyddorion hyn ar ymarfer yn glir ac a ategodd eu gwerthusiad â thystiolaeth ac enghreifftiau perthnasol.

Tasg 4

Ystyriwch sut mae damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau perthnasol (fel bo'n briodol) wedi dylanwadu ar ymarfer mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Rhaid i'ch tystiolaeth gynnwys cysylltiadau clir â sut mae'r damcaniaethau, y ddeddfwriaeth neu'r fframweithiau wedi dylanwadu ar ymarfer yn y lleoliadau rydych chi wedi cael profiad ohonyn nhw.

Mae'r dasg hon yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gynnwys cysylltau i ddylanwadau damcaniaeth, deddfwriaeth neu fframweithiau perthnasol sy'n ymwneud â Chymru (fel sy'n briodol i ffocws y testun) y gellid eu hystyried; dangos dyfnder ac ehangder dealltwriaeth gan gyfeirio at gryfderau a gwendidau mewn ymarfer. Dylid datblygu tystiolaeth i wneud cysylltiadau clir â'r lleoliad gwaith. Rhaid i'r ymgeiswyr drafod sut mae deddfwriaeth, fframweithiau a/neu safbwyntiau damcaniaethol wedi dylanwadu ar ymarfer presennol ac wedi gwneud newidiadau i'r ymarfer mewn lleoliadau plant drwy roi dehongliad o'u profiadau eu hunain o'r effeithiau ar ymarfer proffesiynol.

Ar gyfer Testun 1, llwyddodd llawer o'r ymgeiswyr i ddadansoddi'n glir y ffordd mae damcaniaethau, deddfwriaeth a fframweithiau perthnasol yn dylanwadu ar ymarfer mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru. Gwnaethant ffurfio cysylltiadau clir rhwng damcaniaethau datblygiad plant a fframweithiau yng Nghymru fel y Cwricwlwm i Gymru a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Ar gyfer Testun 2, roedd yr ymatebion yn dangos dealltwriaeth glir o'r ffordd mae theori a pholisi'n llywio ymarfer proffesiynol ac yn gwella canlyniadau i blant.

© WJEC CBAC Cyf.2026

Roedd rhai ymgeiswyr yn tueddu i ddisgrifio damcaniaethau, deddfwriaeth neu fframweithiau heb esbonio sut maent yn dylanwadu ar ymarfer o ddydd i ddydd. Roedd y cysylltiadau â lleoliadau yng Nghymru yn aml yn gyfyngedig neu'n aneglur, ac roedd yr enghreifftiau'n brin o fanylder neu berthnasedd. Rhoddwyd y marciau uchaf i'r ymgeiswyr a gysylltodd theori, deddfwriaeth a fframweithiau yn glir â phrofiadau ymarferol ac a werthusodd eu heffaith ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Tasg 5

Aseswch sut mae gwybod (having knowledge) am y testun rydych chi wedi'i ddewis a'r damcaniaethau a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig yn gallu cael ei ddefnyddio i achosi newid yn y ddarpariaeth gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru.

Rhaid i'ch tystiolaeth:

- ddangos ymwybyddiaeth o ddulliau ymarfer newydd a datblygol
- cyfeirio at amrywiaeth o leoliadau yn y sector
- llunio barn sy'n cysylltu ymarfer â theori (ffocws y testun, deddfwriaeth a damcaniaethau cysylltiedig)
- cynnig awgrymiadau ar gyfer newid yn y dyfodol y gellid eu defnyddio mewn ymarfer i gefnogi gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Rhaid i'r dystiolaeth gyfeirio at ymchwil sydd wedi'i gwneud a **rhaid** i'r dystiolaeth sôn am brofiadau mewn ymarfer.

Mae'r dasg hon yn edrych tuag at newidiadau ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar ymchwil a dealltwriaeth yr ymgeisydd o'u testun dewisol a'u meysydd ffocws. Gofynnir i'r ymgeiswyr ystyried y wybodaeth y maent wedi'i chael drwy ymchwilio i'w testun a'r meysydd ffocws cysylltiedig ac asesu sut y gellir defnyddio damcaniaethau a deddfwriaeth gysylltiedig i sicrhau newid mewn darpariaeth gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Dangosodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r ffordd mae ymyrryd yn gynnar ac asesu'n cefnogi dysgu, iechyd a llesiant plant. Ar gyfer Testun 1, cafodd gwasanaethau iechyd a gwasanaethau seiliedig ar addysg perthnasol eu nodi, ac roedd rhai cyfeiriadau effeithiol ar ddeddfwriaeth ac ymarfer yng Nghymru. Ymhlith y cryfderau roedd cydnabod pwysigrwydd canfod anghenion yn gynnar ac effaith gadarnhaol gweithio amlasiantaethol. Roedd yr ymateb hefyd yn dangos ymwybyddiaeth o'r ffordd y gall ymyrryd yn gynnar wella canlyniadau i blant. Ar gyfer Testun 2, roedd y cryfderau'n cynnwys defnyddio enghreifftiau perthnasol o ymarfer ac ymwybyddiaeth o'r ffordd y gall ymddygiad fod yn gysylltiedig â ffactorau cymdeithasol ac emosiynol ehangach. Roedd yr ymateb yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o bwysigrwydd cefnogi plant drwy berthnasoedd cadarnhaol ac ymyriadau priodol.

Yn gyffredinol, dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r amrywiaeth o ffactorau sy'n gallu dylanwadu ar ymddygiad plentyn, gan gynnwys amgylchiadau teuluol, arddulliau rhianta, perthnasoedd â chyfoedion, profiadau bywyd a dylanwadau amgylcheddol. Roedd cydnabyddiaeth glir bod profiadau yn y cartref a'r tu allan iddo yn gallu effeithio ar ymddygiad a llesiant emosiynol. Er mwyn gwella, roedd angen i'r ymgeisydd gynnwys cyfeiriadau manylach at waith ymchwil, theori a deddfwriaeth i ategu ei drafodaeth. Byddai mwy o ddadansoddiad o'r ffordd mae gwahanol ffactorau'n effeithio ar ymddygiad a chysylltiadau cryfach rhwng theori ac ymarfer wedi atgyfnerthu'r ymateb. Byddai mwy o ystyriaeth i ddulliau cyfredol ac argymhellion ar gyfer ymarfer yn y dyfodol hefyd wedi helpu'r ymgeisydd i ennill marciau ar lefel uwch.

© WJEC CBAC Cyf.2026

Tasg 6

Trafodwch sut bydd eich ymchwil a'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu yn cefnogi eich ymarfer unigol eich hun yn y dyfodol.

Rhaid i'ch tystiolaeth gynnwys:

- Myfyrdod ynghylch gwerth neu fuddion yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu fel rhan o ymchwilio i'r testun hwn a'r meysydd ffocws
- yr hyn yr hoffech ei wneud, yn seiliedig ar ein canfyddiadau, er mwyn gwella eich ymarfer eich hun yn y dyfodol
- cyfeirio at sut byddai newidiadau i'ch ymarfer eich hun yn gallu effeithio ar ymarfer pobl eraill.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr fyfyrio ar eu dysgu personol eu hunain o'r testun a'r meysydd ffocws dewisol. Bydd y myfyrdod hwn yn dod â'r trafodaethau a'r safbwyntiau amrywiol ynghyd drwy gydol yr ymchwiliad cyfan. Bydd yr ymgeiswyr yn gallu trafod gwerth neu fanteision yr hyn y maent wedi'i ddysgu wrth ymchwilio i'r testun a'r meysydd ffocws a ddewiswyd ganddynt.

Gall yr ymgeiswyr drafod yr hyn yr hoffent ei wneud yn seiliedig ar eu canfyddiadau er mwyn meithrin dealltwriaeth well o ymarfer, gyda'r nod o wella eu hymarfer eu hunain yn y dyfodol. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyfeirio at unrhyw effaith y bydd newidiadau yn ei chael ar eu hymarfer eu hunain a'r newidiadau i ymarfer pobl eraill yn y dyfodol.

Yn gyffredinol ar gyfer Testun 1, dangosodd yr ymgeisydd ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd ymyrryd yn gynnar ac asesu wrth gefnogi dysgu, iechyd a llesiant plant. Gwnaethant fyfyrio ar y ffordd roedd eu gwaith ymchwil wedi cynyddu eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth ynglŷn â chefnogi plant yn effeithiol. Ar gyfer Testun 2, dangosodd yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r ffactorau sy'n gallu effeithio ar ymddygiad plentyn, gan gynnwys perthnasoedd teuluol, arddulliau rhianta, dylanwadau cyfoedion a phrofiadau bywyd. Defnyddiwyd enghreifftiau perthnasol i ddangos sut y gall profiadau yn y cartref a'r tu allan iddo effeithio ar ymddygiad.

Un o gryfderau'r ymateb oedd nodi ffyrdd o wella ymarfer yn y dyfodol, fel defnyddio arsylwadau ac asesiadau'n fwy effeithiol a chydweithio'n agos â gweithwyr proffesiynol eraill. Roedd yr ymgeiswyr hefyd yn cydnabod y gallai gwelliant yn eu hymarfer eu hunain gael effeithiau cadarnhaol ar gydweithwyr a'r plant y maent yn eu cefnogi. Er mwyn gwella, gallai'r ymgeisydd fod wedi cynnwys mwy o fanylder am yr hyn a ddysgodd o'i waith ymchwil a rhoi enghreifftiau cliriach o'r ffyrdd y byddai'n rhoi hyn ar waith yn ymarferol. Byddai mwy o esboniad o'r ffyrdd y gallai'r newidiadau hyn ddylanwadu ar ymarfer pobl eraill wedi atgyfnerthu'r ymateb. Ar y cyfan, roedd hwn yn ymateb adfyfyriol da, ond roedd angen mwy o fanylder a gwerthuso i ennill marciau ar lefel uwch.

© WJEC CBAC Cyf.2026

Eich cefnogi chi

Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 02922 404265
E-bost: gchddp@cbac.co.uk
Tudalen y cymhwyster ar y we: https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Cysylltu â ni | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: Hyfforddiant a Digwyddiadau i Ddod | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda thros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Cyf.2026





CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Cyf.2026